# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 16 Hydref 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(88)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1i 12 a chwestiwn 15. Ni ofynnwyd cwestiwn 13. Tynnwyd cwestiwn 14 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Cwestiwn Brys 1**
Dechreuodd yr eitem am 14.19

**Gwyn Price (Islwyn)**
A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr asbestos a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn Ysgol Uwchradd Cwmcarn.

**Cwestiwn Brys 2**
Dechreuodd yr eitem am 14.27

**Mick Antoniw (Pontypridd)**
A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru yn dilyn y cyhoeddiad y bore yma gan Lywodraeth y DU, yn cadarnhau ei bwriad i ddirwyn y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i ben heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.38

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: y cynnydd wrth weithredu ymateb Llywodraeth Cymru i gau ffatrïoedd Remploy

Dechreuodd yr eitem am 14.51

**4. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau: Y Diweddaraf ar Twf Swyddi Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 15.03

**5. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Diogelwch Cymunedol a Chynnydd ar Bennod 7 y Rhaglen Lywodraethu**

Dechreuodd yr eitem am 15.36

**6. Cynnig i gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 16.13

**NDM5063 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).

Gosodwyd Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 28 Mai 2012.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 4 Hydref 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**7. Dadl ar yr Adroddiad ar Ddinas-Ranbarthau**

Dechreuodd yr eitem am 16.56

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd dinas-ranbarthau yn cyfrannu at dwf economaidd yn y modd mwyaf effeithiol os bydd cysylltedd digidol a thrafnidiaeth yn gwella ar draws y rhanbarth.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o drosolwg democrataidd mewn penderfyniadau a wneir ar lefel y ddinas-ranbarth.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder nad yw'r adroddiad yn rhoi digon o sylw i'r rôl y gall canolfannau diwydiannol yng ngogledd-ddwyrain Cymru ei chwarae i arwain y twf economaidd yng ngogledd Cymru.

**Tynnwyd gwelliant 3 yn ôl.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd llwyddiant dinas-ranbarthau yn dibynnu ar gydweithio rhwng pob haen o lywodraeth; ynghyd â'r sector corfforaethol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod na ddylai'r gwaith o weithredu dinas-ranbarthau amharu ar adfywio yng ngweddill ardaloedd Cymru.

**Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion llawn ynghylch y ffordd orau i'r ardaloedd menter perthnasol gefnogi dinas-ranbarth De-Ddwyrain Cymru.

**Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5064 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r adroddiad ar y Dinas-ranbarthau.

Yn credu y bydd dinas-ranbarthau yn cyfrannu at dwf economaidd yn y modd mwyaf effeithiol os bydd cysylltedd digidol a thrafnidiaeth yn gwella ar draws y rhanbarth.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o drosolwg democrataidd mewn penderfyniadau a wneir ar lefel y ddinas-ranbarth.

Yn credu y bydd llwyddiant dinas-ranbarthau yn dibynnu ar gydweithio rhwng pob haen o lywodraeth; ynghyd â'r sector corfforaethol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Yn cydnabod na ddylai'r gwaith o weithredu dinas-ranbarthau amharu ar adfywio yng ngweddill ardaloedd Cymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion llawn ynghylch y ffordd orau i'r ardaloedd menter perthnasol gefnogi dinas-ranbarth De-Ddwyrain Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Daeth y cyfarfod i ben am 17:44

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 17 Hydref 2012**